# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION – CYFARFOD MEDI 2018

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19eg o Fedi 2018** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSGADFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Aeron M Jones. Yn bresennol roedd Elin Evans, Nerys Evans, Michelle Williams, Jason Hunt, Gwilym Lloyd Williams a Rhodri Dwyfor. Hefyd yn bresennol roedd y Clerc, Eleri Thomas. |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Cafwyd ymddiheuriadau gan Bryn Hughes, Peter Roberts, Gwilym V Thomas a Tom Ellis. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Dim i'w nodi. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 18.07.18 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan GW ag eiliwyd gan RD.<br><br>Materion yn codi<br>*5f. Torri gwair ochr lonydd yr ardal*<br>Adroddwyd nad oedd mwy o doriadau i'w cwblhau ar ochrau'r ffyrdd. Byddai'r contractwyr ond yn gwneud toriad unigol os oedd perygl neu arwydd wedi ei orchuddio.<br><br>*5ll. Gwydrau ar balmentydd – Rhosgadfan*<br>Nodwyd bod mwy o wydrau wedi eu torri ar y palmentydd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda CG er mwyn eu glanhau.<br><br>*5o. Llwybr Rhandir Mwyn at Gae Haidd*<br>Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r contractwr gwair i weld os oedd y gwaith hwn wedi ei gwblhau. |
| **5.** | **Materion misol** |
| | **a) Trydan Llanwnda**<br>Adroddwyd bod y gwaith wedi ei gwblhau. Cyfeiriwyd bod y trydan wedi bod i ffwrdd ddwywaith ar y 19eg o Fedi, ond mwy na thebyg mai'r gwynt cryf oedd yn gyfrifol am hynny.<br><br>**b) Bysiau**<br>Adroddwyd mai Gwynfor Coaches oedd wedi cymryd drosodd y gwasanaeth bysiau yn yr ardal a bod y trigolion yn fodlon ag yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a chyflwr glan y bysiau. Adroddwyd bod bws ychwanegol ar gyfer plant yn mynd i'r ysgol o Rhosgadfan a Rhostryfan. Codwyd pryder ynglŷn â phlant yn sefyll ar fws Arriva o Ddinas Dinlle, drwy Saron ag i Ysgol Syr Hugh Owen. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda CG ynglŷn â'r mater.<br><br>**c) Defribrillator Rhostryfan**<br>Derbyniwyd adborth fod y defribrillator am ei osod ar wal yr Ysgol. Mynegodd AMJ y byddai'n bosib rhoi cais i Bwyllgor Chwarel Moel Tryfan am arian tuag at y gost. |

Gofynnwyd i NE rhoi cais drwy e-bost i AMJ er mwyn iddo ei roi ymlaen i'r Pwyllgor Chwarel yn eu cyfarfod nesaf.

**d) Graeanu**

Nodwyd bod y clerc wedi derbyn rhestr o holl finiau halen sydd yn yr ardal a'r costau i'w cynnal a chadw. Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf a byddai'r clerc yn anfon y rhestr ymlaen cyn hynny er mwyn i'r cynghorwyr flaenoriaethu pa finiau oedd yn mynd i gael eu llenwi.

**e) Twll yn llwybr Bryngwyn**

Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf. Ymhelaethodd NE fod Dŵr Cymru yn honni bod ffens llwybr Bryngwyn wedi mynd trwy'r beipen ddŵr, dywedodd y byddai'n holi am fwy o fanylion ac yn adrodd yn ôl ar y mater.

**f) Tir tu ôl i 1 a 2 Tan y Ffordd – Japanese Knotweed**

Nodwyd os mai tir preifat oedd hwn nid cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned oedd ei waredu.

**g) Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cyngor**

Cytunodd AMJ i anfon copïau o'r polisïau diwygiedig trwy e-bost i'r holl aelodau ac i'r clerc.

**h) Safle we gyfredol + ymgysylltu gyda'r cyhoedd**

Cyfeiriwyd at gyfeiriad newydd gwefan y Cyngor. Cytunwyd y byddai'r cynghorwyr edrych ar y wefan ac yna roi adborth yn ôl i'r clerc cyn ei chyhoeddi'r swyddogol.

**i) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019 – 2023**

Nodwyd y byddai'n fuddiol i'r cynghorwyr wneud rhestr o beth oedd trigolion eu cymuned eu hangen ac yna byddai'r rhestr yn cael ei flaenoriaethu.

**j) Taclo baw cwn**

Derbyniodd y clerc bris am fin baw cwn o £200. Nodwyd bod hwn yn eithaf drud am fin. Gofynnwyd i'r cynghorwyr edrych ar lefydd dynodedig ar gyfer eu gosod.

**k) Sedd wag – Ward Dinas – Hysbysiad o Gyfethol**

Adroddwyd nad oedd gofyn am etholiad a phenderfynwyd rhoi hysbyseb i gyfethol aelod newydd yn hysbysfwrdd Saron a Llanwnda ynghyd a'i roi i fyny ar y cyfryngau cymdeithasol.

**l) TE – Swydd £100,000 Cyngor Gwynedd**

Penderfynwyd nad oedd diben i drafod y mater hwn ymhellach gan ei fod allan o reolaeth y Cyngor Cymuned.

**m) Llwybrau – ger Waun Bant**

Nodwyd bod y clerc wedi derbyn gohebiaeth gan CG yn cadarnhau bod trafodaeth eithaf positif i gofrestru'r llwybr hwn.

| | |
|---|---|
| | **n) Mynwent Cefnfaes**<br>Tynnwyd sylw at y safon dda o waith yr oedd cwmni Gwalch wedi ei wneud ar y toriad diweddar o'r fynwent, â'i bod yn edrych yn arbennig o dwt a thaclus. Cyfeiriwyd at e-bost gan ymgymerwyr Gwilym Jones a'i fab yn gofyn a oedd modd disgwyl i gael y darn tir tu ôl i fedd arbennig ar gyfer claddu llwch. Gan fod y teulu yn fodlon disgwyl ar gyfer agoriad i'r tir hwn, penderfynodd y Cyngor i ganiatáu'r cais.<br><br>**o) BH – Bro Wyled, rhif 12 ymlaen – byrst dwr**<br>Trafodwyd bod sawl byrst dwr o gwmpas tai Bro Wyled a bod Dŵr Cymru ddim ond yn atgyweirio rhai darnau. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Dŵr Cymru ynghyd a chopi i gartrefi cymunedol.<br><br>**p) RD – Handrail i'r bont**<br>Nodwyd fod RD wedi anfon linc gwefan er mwyn ceisio am grant i atgyweirio'r handrail.<br><br>**q) GVT - Tŷ preifat, Saron - cwn heb oruchwyliaeth**<br>Penderfynwyd nad oedd y Cyngor yn gallu gwneud dim ynglŷn â hyn ac mai mater i'r RSPCA oedd edrych i mewn i'r sefyllfa.<br><br>**r) Archwiliad BDO**<br>Ymatebwyd i gwestiynau a godwyd gan y BDO ynghyd a chronfa wrth gefn ag rhoddwyd eglurhad am hyn. |
| **6.** | **Derbyn Adroddiadau** |
| | a) E-bost gan Rhys - AMJ wedi gofyn i CG dorri'r coed yn Ninas.<br>Adroddwyd bod y gwaith wedi eu cwblhau erbyn hyn. |
| **7.** | **Is-bwyllgor Mynwentydd** |
| | Dim cyfarfod wedi ei gynnal. Dim i'w adrodd. |
| **8.** | **Materion Ariannol** |
| | **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar yr 19eg o Fedi, 2018**<br>**1. Cyfrif Cadw**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (18.07.18) 25,141.47<br>Praesept 12,500.00<br>Llog banc 5.67<br>Trosglwyddo £1000 o'r cyfrif cadw - 1,000.00<br>**Balans ar derfyn busnes 19 Medi 2018 £36,647.14**<br><br>**2. Cyfrif Siec**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (18.07.18) 3489.41<br>+ 2 x gladdedigaeth 450.00<br>Trosglwyddo £1000 o'r cyfrif cadw 1000.00<br>101082 - Cyfrifwyr A Hughes-Jones Dyson 192.00<br>101081 - Cyflog y clerc Gorffennaf 2018 446.80 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyllid y wlad Gorffennaf 2018 | 101.20 |
| | 101083 – Lleu | 35.00 |
| | 101084 - Cyflog y clerc Awst | 447.00 |
| | Cyllid y wlad Awst 2018 | 101.00 |
| | **Balans ar derfyn busnes 19 Medi 2018:** | **£3616.41** |

Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 19eg o Fedi 2018:

| | |
|---|---|
| Cyflog y Clerc Medi 2018 | 446.80 |
| Cyllid y wlad Medi 2018 | 101.20 |
| Un Llais Cymru | 40.00 |
| **Cyfanswm** | **£588.00** |

Cytunwyd i'r taliadau yma am y mis.

Penderfynodd y Cyngor nad oeddynt am dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol y flwyddyn hon.

**9. Materion Cynllunio**

Cais cynllunio - C14/0386/24/LL - Adnewyddu cais cynllunio drwy newidiadau i'r brif fynedfa a chreu lonydd stad. Lleoliad - Tir yng nghefn Tan y Celyn, Sŵn y Môr a Talardd, Llanwnda. **Gwrthwynebwyd** y cais hwn ar sail y cynllun a'r ffordd mae'r cae chwarae wedi ei osod wrth ochr y rheilffordd. **Gwrthwynebwyd** y cais hefyd oherwydd lleoliad y tŷ un llawr, gan ei fod wedi ei osod yn bell oddi wrth y brif fynedfa, a chan mai trigolion oedrannus neu anabl oedd yn debygol o'i fynychu byddai hyn yn anhwylus. Codwyd pryder hefyd nad oedd palmenti wedi eu cynllunio ar ddwy ochr i'r ffordd.

**10. Gohebiaeth a chylchgronau**

a) Cyngor Gwynedd – Gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd. Rhestrwyd y rhybuddion cyhoeddus oedd yn dod i rym yn ardal Llanwnda mis Hydref 2018.

**11. Materion Cyfarfod Nesaf**

JH – Cae Coch
GW - Bocs GPO , caead wedi suddo i'r llawr (ger Garej Dinas)
EE - Drain wedi tyfu ar y palmentydd (ger Gerddi Benar)
EE - Grisiau i lawr am y tai dros y bont yn Ninas (heibio Dwr Cymru)
NE – Carreg fawr Wernlas Ddu, dwr ar y lon
NE - Dim llinellau gwyn o Bryn Peris T Junction, cwm pen Groeslon a sgwâr bryn melyn, Rhos Isaf.

**Dyddiad: 17 Hydref 2018 - 7.00yh**
**Lleoliad: YSGOL RHOSTRYFAN**